Nadolig 2012 - Rhifyn 6

Newyddion Ysgol Bro Ddyfi, Machynlleth

# Ein Bro



# Gair gan y Pennaeth

Annwyl riant/ ofalwr,

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i chi, eich plant a staff yr ysgol am flwyddyn arbennig iawn yn hanes yr ysgol. Mae cydweithio clos rhwng y cartref ar ysgol yn bwysig iawn i sicrhau llwyddiant. Fe gododd canran presenoldeb yr ysgol o 89.5% yn 2010/11 i 94.2% yn 2011/12 a symud o fand 4 i 2.

Hefyd roedd gwelliant yn y canlyniadau TGAU yn enwedig yn y pynciau craidd yn arwyddocaol iawn.

Gobeithio y gallwn barhau i fod yn bositif a gwella ar y canlyniadau hyn y flwyddyn nesaf.

Hoffwn ddymuno nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i chi gyd.

Dafydd Jones



| Mae YSGOL BRO DDYFI ym **Mand 2** | |
|---|---|
| **Trothwy Lefel 2 gan gynnwys Saesneg/Cymraeg a Mathemateg** | |
| Perfformiad 2012 | 1 |
| Perfformiad 2012 yn erbyn FSM | 4 |
| Cynnydd cymharol dros 3 blynedd | 3 |
| Gwerth ychwanegol cyd-destunol | 2 |
| **Sgôr y grŵp** | **10** |

| **Sgôr pwyntiau wedi'i chapio** | |
|---|---|
| Perfformiad 2012 | 1 |
| Perfformiad 2012 yn erbyn FSM | 2 |
| Cynnydd cymharol dros 3 blynedd | 1 |
| Gwerth ychwanegol cyd-destunol | 1 |
| **Sgôr y grŵp** | **5** |

| **Saesneg/Cymraeg a Mathemateg** | |
|---|---|
| Perfformiad Saesneg/Cymraeg 2012 wedi ei osod yn erbyn FSM | 2 |
| Perfformiad Mathemateg 2012 wedi ei osod yn erbyn FSM | 2 |
| **Sgôr y grŵp** | **4** |

| **Presenoldeb** | |
|---|---|
| Perfformiad 2012 wedi ei osod yn erbyn FSM | 2 |
| Cynnydd cymharol dros 3 blynedd | 1 |
| **Sgôr y grŵp** | **3** |

| **Mae sgorau'r pedwar grŵp yn cael eu hadio i roi sgôr cyffredinol** | |
|---|---|
| Trothwy Lefel 2 gan gynnwys Saesneg/Cymraeg a Mathemateg | 10 |
| Sgôr pwyntiau wedi'i chapio | 5 |
| Saesneg/Cymraeg a Mathemateg | 4 |
| Presenoldeb (pwysoliad o 50%) | 1.5 |
| **Cyfanswm y sgôr cyffredinol** | **20.5** |

| **Allwedd** |
|---|
| 1 = Perfformiad yn y 25% uchaf o ysgolion yng Nghymru |
| 2 = Perfformiad yn y 50% uchaf o ysgolion yng Nghymru |
| 3 = Perfformiad yn y 50% isaf o ysgolion yng Nghymru |
| 4 = Perfformiad yn y 25% isaf o ysgolion yng Nghymru |



# A word from the headteacher

Dear parent/carer,

I would like to thank you, your children and the school staff for a very special year in the school's history. There has been close co-operation between the home and the school that has resulted in excellent progress. The attendance % improved from 89.5% in 2010/11 to 94.2% in 2011/12 and the school moved from band 4 to 2.

The excellent GCSE results also contributed with the core subject results showing a great improvement.

I hope that we can continue to be positive in the future and improve on these results next year.

I hope you all have a merry Christmas and a happy new year.

Dafydd Jones



| YSGOL BRO DDYFI is in **Band 2** | |
|---|---|
| **Level 2 threshold including English/Welsh and Mathematics** | |
| 2012 performance | 1 |
| 2012 performance set against FSM | 4 |
| Relative progress over 3 years | 3 |
| Contextual value added | 2 |
| **Group score** | **10** |

| **Capped points score** | |
|---|---|
| 2012 performance | 1 |
| 2012 performance set against FSM | 2 |
| Relative progress over 3 years | 1 |
| Contextual value added | 1 |
| **Group score** | **5** |

| **English/Welsh and Mathematics** | |
|---|---|
| English/Welsh 2012 performance set against FSM | 2 |
| Mathematics 2012 performance set against FSM | 2 |
| **Group score** | **4** |

| **Attendance** | |
|---|---|
| 2012 performance set against FSM | 2 |
| Relative progress over 3 years | 1 |
| **Group score** | **3** |

| **The four group scores are totalled to give an overall score** | |
|---|---|
| Level 2 threshold including English/Welsh and Mathematics | 10 |
| Capped points score | 5 |
| English/Welsh and Mathematics | 4 |
| Attendance (50% weighting) | 1.5 |
| **Total overall score** | **20.5** |

| **Key** | |
|---|---|
| 1 = Performance in the top 25% of schools in Wales | |
| 2 = Performance in the top 50% of schools in Wales | |
| 3 = Perfomrance in the lower 50% of schools in Wales | |
| 4 = Performance in the lowest 25% of schools in Wales | |



# Ysgol Bro Ddyfi

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda

Merry Christmas and a Happy New Year



# Ynys-Hir RSPB

Mae'r rhaglen BBC Spring Watch wedi bod yn darlledu yn fyw o'r warchodfa dros y ddwy flynedd diwethaf, yn helpu i amlygu'r ystod eang o fywyd gwyllt, y cynefinoedd arbennigol a'r harddwch sydd yno, ac ar draws ardal biosffer Dyfi.

Ymwelodd blwyddyn 8 a'r warchodfa, yn casglu dyluniadau, gludwaith a geiriau. Mi fydd y gwaith wedyn yn cael ei ddatblygu mewn cyfres o weithdai gydag arlunwyr yn yr ysgol i greu printiau leino, ac mi fydd rhain yn cael eu defnyddio i greu arddangosfa yn y guddfan newydd sy'n cael ei chreu y gaeaf yma!

*BBC Spring Watch* has been broadcasting live from the reserve for the last two years, helping to highlight the variety of wildlife, the specialist habitats and general beauty of the reserve and the whole of the Dyfi Biosphere.

Year 8 started by visiting the reserve and gathering sketches, collages and words. These will then be developed during a series of Artists' workshops at school, to create lino prints that will become part of an interpretation that will go on display in the new hide, which is being constructed this winter.










# Diwrnod Pinc!

Drwy gydol ddydd Gwener, 26ain o Hydref, trefnwyd diwrnod gwisgo pinc yn yr ysgol i godi arian at ymchwil cancr. Gwisgodd y disgyblion amrywiaeth o ddillad pinc, o 'dw -tw' i byjamas, a dau fachgen ym mlwyddyn 10 yn gwisgo fel y cymeriadau adnabyddus, '118'.

Bu’r diwrnod yn un llawn hwyl a chodwyd nifer fawr o arian at achos da. Fel arfer, mae'n hynod o braf i weld disgyblion Bro Ddyfi mor barod i helpu eraill. Diolch i bawb am eu haelioni.

*On Friday, 26th of October the school council arranged a Pink Day at the school to raise money towards Cancer Research UK. The school was truly decorated in Pink from tip to toe, including pupils in pink pyjamas and the boys in their 118 118 costumes! Plenty of fun was had during the day and we raised a lot of money for such a good cause. It's brilliant to see our pupils always so willing to help others!*

# Gwobrwyo!!!

Llwyddodd 193 o ddisgyblion yr ysgol i gyrraedd y nôd o 75 pwynt clod yr un yn ystod yr hanner tymor cyntaf am waith rhagorol, cynrychioli’r ysgol neu waith dosbarth/ gartref da. Rhoddwyd tystysgrif i bawb, a dewiswyd ugain ohonynt i dderbyn taleb Argos!

*193 pupils were successful in reaching the aim of over 75 merit points during the first half term for excellent work, representing the school or good class work/ homework. All the pupils received a cer-tificate and the computer randomly picked twenty of them to receive an Argos voucher!*





www.broddyfi.co.uk

# Plant mewn angen!
# Children in need!





Ar ddiwrnod Plant Mewn Angen bu disgyblion a staff yr ysgol wrthi'n ddiwyd yn casglu arian, drwy gynnal diwrnod gwisg ffansi a chystadleuaeth X-Factor! Diwrnod llwyddiannus dros ben! Casglwyd £588! Llongyfarchiadau mawr i bawb ym Mro Ddyfi am godi cymaint o arian at Blant Mewn Angen! Diwrnod cofiadwy iawn!

On Children In Need day pupils and staff had a fancy dress and X-Factor day! It was a brilliant and successful day! £588 was raised. Big congratulations to everyone in Bro Ddyfi for collecting so much money for Children In Need! It was truly a memorable day!











# Home Access Plus+
## Access your school from Home

Mae modd i chi nawr weld eich ffeiliau Ysgol pan fyddwch chi gartref. Ysgol Bro Ddyfi yw'r unig ysgol yng Nghanolbarth a Gogledd Cymru sy'n defnyddio'r rhaglen yma. Mae ar gael i bob disgybl yn yr ysgol.

## Sut I ddefnyddio Home Access Plus+

*It is now possible for you to see your school computer files at home. Ysgol Bro Ddyfi is the only school in Mid and North Wales that offers this service. It is possible for all pupils to access their files from home.*

1. Yn gyntaf mae angen i chi fynd ar wefan Ysgol Bro Ddyfi. www.broddyfi.co.uk. Yna mae angen gwasgu botwm y linc sydd ar ochr dde'r sgrin.

   *First you need to go to the school website www.broddyfi.co.uk and click on the blue link on the right hand side . See the picture on the right.*







2. Bydd blwch nawr yn ymddangos ar y sgrin fel yr un ar y chwith. Mi fydd angen i chi lenwi'r bylchau gan gyflwyno eich enw a chyfrinair eich cyfrif ysgol a gwasgu 'ok'.

*Next a box will appear on the screen like the one on the left. You will need to fill in the form with your school account details and click ok.*

3. Nawr mae'n bosib i chi glicio ar ***Browse My School Computer*** lle bydd hi'n bosib i chi weld eich ffolderi a'ch ffeiliau. Yno cewch ddewis rhwng eich ffolder chi, y ffolder ***Curriculum Pool*** neu ffolder y ***shared drive***.




*Now you can click on **Browse My School Computer** where it will be possible for you to access your files. Then you will be able to choose from your folder, the curriculum pool or the shared drive to download files.*




3. I lawr lwytho dogfen o'ch dewis mae angen clicio arni ddwywaith ac mi fydd hi'n bosib i chi ei gweld a'i newid.

*To download a document of your choice you can just click on it and it will be there for you to see and edit.*




3. Os ydych am roi'r ddogfen yn ôl ar ***Home Access Plus*** er mwyn ei gweld ar system yr Ysgol, gwasgwch ar y botwm dde ar y lygoden a dewiswch ***up-load***.

*To upload your file back to the school system you must right click in the folder you wish to include, select the document and click **upload**.*

# Dyddiadau Pwysig
# Important Dates

| Beth / *What?* | Pryd/*When?* |
|---|---|
| **29/10/12 – 02/11/12** | **Hanner Tymor/Half Term** |
| **05/11/12** | **Diwrnod Di-ddisgybl/Non-pupil day** |
| **06-12/11/12** | **Arholiadau Allanol TGAU/GCSE External Examinations** |
| **19/11/12** | **Noson Rieni Bl 8 / Yr 8 Parents' Evening** |
| **26/11/12** | **Noson Tiwtor Bl 7 a Codi Safonau/ Yr 7 Tutor Evening and Raising Standards** |
| **03/12/12** | **Noson Rieni Bl 12 a 13/<br>Yr 12 & 13 Parents' Evening** |
| **24/12/12 – 04/01/13** | **Gwyliau Nadolig – Christmas Holiday** |
| **7/1/13** | **Diwrnod Di-ddisgybl / Non-pupil Day** |
| **09/1/13 – 30/1/13** | **Arholiadau Allanol Lefel A a TGAU / GCE and GCSE External Examinations** |
| **14/1/13** | **Noson Rieni Bl 11 / Yr 11 Parents' Evening** |
| **04/2/13** | **Noson Hyrwyddo'r Chweched/ Sixth Form Promotion Evening** |
| **11 – 15/2/13** | **Hanner Tymor / Half Term** |
| **18/2/13** | **Noson Rieni Bl 10 / Yr 10 Parents' Evening** |
| **11/3/13** | **Noson Rieni a Dewisiadau Bl 9 / Yr 9 Parents' and Options Evening** |
| **28/3/13** | **Diwrnod Di-ddisgybl / Non-pupil Day** |
| **29/3/13 – 12/4/13** | **Gwyliau'r Pasg / Easter Holidays** |
| **13/5/13 – 21/6/13** | **Arholiadau Allanol Lefel A a TGAU / GCE and GCSE External Examinations** |
| **27 – 31/5/13** | **Hanner Tymor / Half Term** |
| **08/7/13** | **Wythnos Gweithgareddau / Activities Week<br>Profiad Gwaith Bl 10 a 12 / Yr 10 & 12 Work Experience** |





# Canlyniadau TGAU groau erioed!

**Yn 2012, mae disgyblion blwyddyn 11 Ysgol Bro Ddyfi wedi creu cryn argraff gan sicrhau'r can-**lyniadau TGAU gorau erioed yn hanes yr ysgol. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae cynnydd graddol wedi bod yn y canlyniadau TGAU, a gwelwyd cryn gynnydd y llynedd yn nifer y graddau A*-A a enillwyd.

Mae Mr Dafydd Jones, y Pennaeth yn hynod o hapus i longyfarch y disgyblion ar ennill 87% o 5 gradd A*-C **eleni (cynnydd o 20% ar ganlyniadau'r flwyddyn flaenorol). "Mae'r flwyddyn yn ei chyfanrwydd wedi cael canlyniadau arbennig ac rwy'n falch iawn i weld yr holl ddisgyblion yn cyflawni i'w potensial. Mae'r disgyblion wedi gweithio'n galed iawn dros y ddwy flynedd ddiwethaf i sicrhau'r canlyniadau penigamp yma. Hoffwn** hefyd dalu teyrnged i ansawdd gwaith yr holl staff sydd **wedi gweithio'n ddiflino gyda'r disgyblion yma; y rhodd** mwyaf gwerthfawr gall unrhyw athro ei roi i ddisgybl yn Ysgol Bro Ddyfi yw ei amser, ac mae athrawon yr ysgol **yn hynod o hael wrth rannu o'u hamser. Yn ogystal, mae rhieni wedi bod yn greiddiol i'r llwyddiant a brofwyd ar yr achlysur hwn trwy gefnogi'r cyfundrefnau mentora a** gyflwynwyd dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Bydd **mwyafrif helaeth y myfyrwyr o'r flwyddyn hon yn** dychwelyd i Ysgol Bro Ddyfi i astudio Safon Uwch a chyrsiau galwedigaethol cyfatebol, a byddant yn anelu i **sicrhau llwyddiant pellach ymhen dwy flynedd. Mae'r** ysgol hefyd yn falch iawn i allu croesawu nifer arwyddocaol **o fyfyrwyr newydd i'r Chweched Dosbarth ym mis Medi o ardaloedd eraill tu hwnt i ddalgylch yr ysgol"**

*Year 11 pupils at Ysgol Bro Ddyfi have created their own piece of history this week by achieving the highest GCSE results ever seen at the school. Over recent years, there has been a gradual upward trend in the results gained, and last year showed a marked improvement in the number of A*-A grades achieved.*

*Mr Dafydd Jones, the Headteacher is thrilled this year to be congratulating pupils on achieving a record-breaking 85% 5 A*-C grades at GCSE (a 20% increase on the results of the previous year). "The cohort as a whole produced excellent results and I'm very proud to see the pupils fulfilling their potential. The pupils have worked very hard over the past two years towards achieving these outstanding results. I would like to pay tribute to the quality of work of all the staff who have worked tirelessly to produce these outcomes; the most valuable gift any teacher can give a pupil at Ysgol Bro Ddyfi is their own time and this is given in abundance at the school. Parents have also been central to the success achieved on this occasion by supporting mentoring initiatives which have been introduced over the past two years. The vast majority of the students from this cohort will now be returning to Ysgol Bro Ddyfi to study A levels and equivalent vocational courses, and will be aiming to achieve further success in two years' time. The school is also very pleased to be welcoming a significant number of new students to the Sixth Form in September from other areas beyond the school's catchment area".*

Ymysg y perfformwyr uchaf oedd: / *Amongst the highest performers were:*

- Michael Edwards - 9A* a 2 A
- Yali Banton-Heath - 7A*, 4A ac 1B
- Marged Wyn Jones - 6A* a 7A
- Calum Davies - 4A* ac 8A




Llongyfarchiadau i'r chweched dosbarth am hel arian i'r tîm achub mynydd Dyfi!

*Congratulations to the sixth form for raising money for the Dyfi Mountain Rescue Team!*






@BroDdyfi



# Apps Llythrenedd

# Literacy Apps

Mae llawer iawn o ddisgyblion bellach gyda ffonau symudol a thabledi digidol. Mae'r disgyblion sydd gyda ipod Touch, ipad, ffonau HTC a ffonau eraill sy'n rhedeg systemau Android a thabledi gyda mynediad i 'Apps' sy'n gwneud datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd yn hwyl, ac yn brofiad llwyddiannus! Fel ysgol, rydym yn annog disgyblion i ddefnyddio'r Apps hyn ar eu ffonau a'u tabledi ac i dreulio ychydig o amser yn gyson yn ystod y gwyliau (a thymor yr ysgol) yn ymarfer a datblygu eu sgiliau. Dyma gasgliad o Apps (rhai rhad ac am ddim, a rhai sy'n rhaid talu amdanynt) yr awgrymir fel rhai da i'w defnyddio, er mae miloedd ar gael ar y wê, ac mae rhai newydd yn cael eu cyhoeddi'n gyson, felly mae'n werth edrych ar **itunes** a **Google Play** i weld beth sydd ar gael yn y meysydd hyn yn achlysurol.

*Many pupils now have access to mobile phones and digital tablets. The pupils who have access to an ipod Touch, ipad, iphone, HTC phones and other Android phones and tablets also have access to Apps which make developing Literacy and Numeracy skills a fun and successful learning experience.*

*As a school, we are encouraging our pupils to put some of these Apps on their phones and tablets and to spend some time using them on a regular basis. The forthcoming holidays are an excellent opportunity to practice and develop these skills.*

*Below are some free Apps and some which have to be paid for. Although these Apps are recommended by the school, there are also thousands of other Apps available on the internet, and new Apps are published all the time, therefore it is worth visiting **itunes** or **Google Play** from time to time to see what is available.*

Pearson Grammarprep - £2.49 yr un (10 app i gyd)
Dyma gasgliad o bosau sy'n targedu gwahanol agweddau o ramadeg. Mae ffocws ar agweddau amrywiol o ramadeg Saesneg yn cynnwys, lle i osod priflythyren, sut i atalnodi a sut i ddefnyddio geiriau'n gywir. Er gwaetha'r gôst, mae'r apps hyn yn safonol ac yn heriol, ac yn targedu disgyblion 11-18 mlwydd oed yn ogystal ac oedolion.

Pearson Readingprep - £1.99 yr un (7 app i gyd)
Mae cwmni Pearson hefyd wedi datblygu posau sy'n targedu sgiliau darllen Saesneg disgyblion. Maent yn targedu agweddau megis awgrymiadau, geirfa addas a trefn darnau darllen, ac eto yn heriol ac yn targedu disgyblion 11-18 mlwydd oed yn oygystal ac oedolion.

SAT vocab cards – am ddim
Dull o ddysgu geirfa sy'n gallu bod yn heriol ar ffurf cardiau fflach ac wrth eu clywed. Mae geirfa goeth yn sicr yn ddull o arddangos sgiliau llythrennedd safonol. Fel rhan o'r app, gellir mesur pa mor dda ydych chi'n deall geiriau ar ffurf cwis.

Book Creator for ipad - £2.99
App sy'n caniatau unigolion i greu a dylunio llyfr. Mae'n gwneud y broses yn hwyl, ac yn arwain at ddatblygu sgiliau ysgrifennu.

Miss Spell's Class – am ddim
Mae'r 'ap' hwn yn targedu sgiliau sillafu disgyblion ac wedi dewis geiriau mae pobl yn ei chael fwyaf anodd i'w sillafu. Mae'n app poblogaidd iawn, ond dylid pwysleisio bod ambell air wedi eu sillafu yn y ffurf Americanaidd.

## Android

**Llythrennedd**

1800 English Grammar Questions – am ddim
Y dasg yw i gael atebion gramadegol gywir i'r cwestiynau a ofynir sy'n cael eu gosod fel profion o 5 cwestiwn. Yr her yw i gael cyfres o 3 prawf cwbl gywir.

*English Grammar tests – am ddim*
*Eto, cyfres o brofion, ond mae'r app yma hefyd yn cynnwys geiriadur ac adnoddau ieithyddol eraill.*

*Miss Spell's Class – am ddim*
*Mae hwn yn targedu sgiliau sillafu disgyblion ac wedi dewis geiriau mae pobl yn ei chael fwyaf anodd i'w sillafu. Mae'n app poblogaidd iawn, ond dylid pwysleisio bod ambell air wedi eu sillafu yn y ffurf Americanaidd.*

*Spelling Words Matching Game – am ddim*
*Gem arall yn canolbwyntio ar sillafu cywir.*

*English Reading Comprehension – am ddim*
*Dyma app sy'n targedu datblygu sgiliau darllen a deall. Mae hon yn sgil allweddol mae disgyblion angen gallu ei wneud mewn arholiad ac yn sgil allweddol sydd ei hangen ar gyfer dysgu gydol oes.*



# Urdd
# ym Mro Ddyfi




## Ymuna!

I ymaelodi yn yr Ysgol ewch i weld Miss Catrin Jones, ystafell 14 am fwy o wybodaeth. Cofiwch ymaelodi gyda'r Urdd cyn yr hanner tymor i gael gostyngiad i'r pris aelodaeth.

## Oakwood

Dydd Sadwrn 29 Medi am 7.30 cychwynodd 10 o ddisgyblion blwyddyn 7 ar daith i Barc Oakwood. Cafodd y disgyblion cyfle i gwrdd â disgyblion eraill o'r sir, fel Ysgol Llanidloes a Llanfair ym Muallt. Cafon nhw lawer o hwyl!

## Taith
## Scarlets V Y Gweilch



Nos Wener y 21 Medi teithiodd 31 o ddisgyblion blynyddoedd 8,9,10 ac 11 a saith aelod o staff yr Ysgol i Lanelli i weld gêm ym Mharc y Scarlets rhwng y Scarlets a'r Gweilch. Yn anffodus doedd Rhodri Jones (Gwerniago) ddim yn chwarae oherwydd anaf, ond cyffrôdd Mrs Caryl Morgans wrth i Ryan Jones wenu arni!! Roedd cynnwrf ymysg y merched wrth iddyn nhw weld Rhys Priestland a George North, yn enwedig Lliwen Jones! Cafodd bawb lawer o hwyl, gyda rhan helaeth o'r disgyblion yn cefnogi'r Scarlets. Ond siom a gafwyd, wrth i'r Gweilch guro o 7 pwynt. 16-23 oedd y sgôr derfynol! Dyma Ifan Rhys, Celt Lewis a Gwawr Jones yn dathlu'r fuddugoliaeth.





# Addurno cacennau





Cynhaliwyd gweithgaredd creu ac addurno cacennau bach ar y 24ain o Hydref yn yr ysgol i ddisgyblion Blwyddyn 7,8 a 9.

Cyflwynwyd y cacennau i gystadleuaeth yn Eisteddfod Powys 2012. Bu disgyblion blwyddyn 12 wrthi'n ddiwyd iawn yn trefnu'r gweithgareddau a hynny fel rhan o'u gwaith Menter sy'n elfen bwysig o'r Fagloriaeth. Diolch i bawb a wnaeth sicrhau diwrnod llwyddiannus.





# Eisteddfod Powys






- Llefaru bl 7 i 9 - 3ydd Lleucu Morgan a Lliwedd Jones
- Unawd bl 7 i 9 - 3ydd Dyfan Jones
- Côr Cerdd Dant - 1af Parti Ilan
- 2il Parti Dyfan
- Unawd Cerdd dant - 3ydd Lliwedd Jones

| | |
|---|---|
| **Dawns Unigol:**<br>Gwawr Jones<br>Lliwen Jones<br>Bethany Byrne | <br>1af<br>2ail<br>3ydd |
| **Dawns Par**<br>Gwawr Jones a Lliwen Jones | <br>1af |
| **Dawns ymbarel:-**<br>Bethany Byrne a Jemma Hennighan | <br>1af |
| **Dawns Grŵp:-**<br>Brotastig<br>Grwp Bl.10 -13 (cadwyni)<br>Grwp Bl.7-9 (chwedl Cantre'r Gwaelod | <br>1af<br>2ail<br>3ydd |

Llongyfarchiadau i bawb sydd wedi bod yn weithgar drwy'r Tymor yn mynychu ymarferion a pherfformiadau. Roedd yn braf gweld cymaint o lwyddiannau yn Eisteddfod Powys, ac rydym yn edrych ymlaen nawr at dymor Eisteddfodau'r Urdd. Y mae nifer wedi bod ynghlwm a pherfformiadau eraill yn ystod y flwyddyn. Cafwyd canmoliaeth mawr i'r disgyblion a fu'n perfformio yng ngwasanaeth Merched y Wawr yn yr Eglwys. Cyn diwedd y tymor bydd nifer o ddisgyblion yn cynnig adloniant yn y gymuned, gan gynnwys perfformiad yn Ysbyty Machynlleth.

Mae dau weithdy cerddorol gwahanol iawn wedi eu trefnu y tymor hwn - gweithdy telyn a gweithdy Byrfyfyrio Jazz.

Mae croeso i bawb - offerynnwyr a chantorion i ymuno yn y gweithgareddau cerddorol. Amdani!

Hefyd llongyfarchiadau i holl ddisgyblion yr Ysgol a fu'n llwyddiannus yn yr adran Celf a Chrefft.

Mae cyfle i weld yr holl waith buddugol mewn arddangosfa ar goridor yr ysgol.

# Menter
## Clogiau Clyfar



Mae disgyblion blwyddyn 12 wedi bod yn gweithio'n brysur ac yn ddiwyd yn trefnu a chynnal gweithgareddau amrywiol yn yr ysgol fel rhan o'u gwaith Menter. Ar y 24ain o Hydref, cyflwynodd y grŵp 'Clogiau Clyfer' ddigwyddiad hwyliog yn y Neuadd a oedd wedi ei selio ar y rhaglen deledu "Are you smarter than a 10 year old." Bu 6 disgybl Bl. 8 yn brwydro yn erbyn 6 athro i beidio gorfod wynebu'r drochfa *gynjlyd!* Bwriad y weithgaredd oedd ceisio hybu'r iaith Gymraeg a gwneud elw. Bu'r digwyddiad yn un llwyddiannus tu hwnt. Diolch i bawb a gymrodd rhan.











# Trip Clwb TGCh

Nos Wener, Tachwedd 23ain, aeth criw o'r clwb TGCh i ymweld â Phrifysgol Aberystwyth i fynychu darlith ddiddorol am Ddeallusrwydd Artiffisial (Artificial Intelligence) a *Robotics* gyda'r adran Wyddorau Cyfrifiadurol.

Cynhaliwyd noson lwyddiannus dros ben i arddangos y llwyddianau y mae'r clwb wedi eu profi wrth greu rhaglenni ac i arddangos sut maent yn arwain y sector TGCh yng Nghymru. Bydd Clwb TGCh Bro Ddyfi nawr yn denfyddio'r grant o £4000 y maent wedi ei dderbyn gan y sir i greu adnoddau i'r ysgolion cynradd lleol i addysgu plant ifanc ar sut i raglennu drwy "*bod castio*" fideos ar-lein.

Y bwriad felly yw creu cymuned e-ddysgu STEM Bro Ddyfi. Y gobaith trwy'r math yma o gydweithio fydd rhannu arfer dda a bydd yn ffordd i'r Clwb TGCh ddangos eu sgiliau rhaglennu yn ogystal â helpu eraill gyda'r sgiliau yma, drwy greu *apps* a defnyddio cyfrifiaduron newydd o'r enw "Raspberry Pi" sydd yn rhedeg ar UNIX.

*On Friday 23rd of November a group of pupils from the ICT club went to Aberystwyth University for a lecture on Artificial Intelligence and Robotics which was arranged by the Computer Science Department which hosted the "show and tell" evening. This lecture was very successful in showcasing some of the areas which the club has been working on, such as programming and plans for the future development of programming in the school.*

*The ICT club will be using these new skills along with a grant from the County Council to create resources on how to program and host a website, which will be the hub of a learning community for the Machynlleth area, with the aim of getting more secondary and primary pupils into programming.*

*With this project the club will be able to publish their work online and help others to create apps and use the new "Raspberry Pi" computer which runs on Unix.*



# Taith Rygbi

## Sgartlets V Ospreys

Ar Medi 21 aeth rhai o blant Ysgol Bro Ddyfi a Ysgol uwchradd Llanidloes i weld gêm rygbi y Scarlets yn erbyn y Gweilch ym mharc y Scarlets.

Gadawon ni'r ysgol yn y prynhawn a chyfarfod disgyblion ysgol Llanidloes ar y ffordd. Cyrhaeddom ni'r stadiwm gyda tua ugain munud tan *kick off*.

Roedd y merched wedi gwirioni'n lan gyda George North, ac roedd Mr Rowlands yn edrych fel petai ganddo ddim syniad beth oedd yn mynd ymlaen!

Roedd hanner gynta y gêm braidd yn ddiflas, cafodd 'run cais ei sgorio. Y sgôr hanner amser oedd 9-9. Hanner amser daeth tua chwech tîm o blant ifanc allan i chwarae rygbi ac roedd o'n ddoniol iawn i'w gwylio nhw!

Pan ddechreuodd yr ail hanner daeth Ryan Jones ymlaen i chwarae *flanker* a sgoriodd y cais cyntaf! Sgoriodd Dan Bigger y gic i wneud y sgôr yn 16-9 i'r Gweilch. I ychwanegu at sgôr yr Ospreys, llwyddodd Hanno Dirksen a Dan Bigger i gael cais i wneud y sgor yn 23-9 i'r Gweilch!

*On the 21st September a group of pupils went on a trip to Llanelli to watch the Scarlets' Rugby team versus the Ospreys' Rugby team.*

*After a long time on the bus we finally arrived at Parc y Scarlets, we arrived about 30 minutes before kick-off, but thanks to Mr.Ellis we had trouble finding the gate. After a while we found our gate and our seats. The game was very exciting because there were no tries in the first half, but there were many penalty's to keep it exciting.*

*In the second half the Ospreys broke away with two tries from Dirksen and Ryan Jones, but Scarlets did get a try scored by George North right in front of where we were sitting. Even though most of us were disappointed with The Scarlets losing the game it was still a nice ride home, at least we had something to talk about. But not many to talk to because many pupils and teachers fell asleep such as Mr Rowlands, Mr Ellis, Mr Honeybill, Kristian and many more. It was very enjoyable and fun.*

*Written by Llywelyn Jones and Alex Davies.*

Biosffer Dyfi Biosphere

*gwerth y byd - world class by nature*

Mae ein hardal yma ym Mro Ddyfi ac Aberystwyth yn le arbennig: o ran ei thirlun, bywyd gwyllt, ni'r bobl sy'n byw yma a'n hiaith a'n diwylliant, treftadaeth a hanes y fro, yr ymchwil sy'n digwydd yma, yr economi leol a llawer mwy! Cofrestrodd UNESCO yr ardal gyfan fel Biosffer yn 2009. Diben y statws yma yw helpu i bobl leol fanteisio wrth amddiffyn y pethau sy'n gwneud yr ardal yn arbennig. Mae nifer o grwpiau yn gweithio dan adain Biosffer Dyfi er mwyn dod â phobl at ei gilydd i weithredu ar y cyd, gan gynnwys rhwydwaith gelfyddydau.

Our area here in the Dyfi Valley and Aberystwyth is a special place, in terms of the landscape, wildlife, us the people who live here and our language and culture, the area's history and heritage, the research that happens here, the local economy and more besides!

UNESCO registered the whole area as a Biosphere in 2009. The purpose of this status is to help local people benefit in the process of protecting the things that make the area special. A number of groups work under the aegis of the Dyfi Biosphere to bring people together for joint action, including an arts network.

**robin@biosfferdyfi.org.uk ● 01654 703965 ● www.biosfferdyfi.org.uk**

Cymdogion Celtaidd yw'r asiantaeth ddatblygu sy'n ysgogi a chefnogi rhyngweithio diwylliannol yn ein hieithoedd brodorol ar draws y gwledydd Celtaidd i gyd. Cafodd ei sefydlu yn 2003 a daethon ni'n Gwmni Buddiannau Cymunedol yn 2011. Rydyn ni'n gweithio'n agos gydag ystod eang o bartneriaid, ac yn ganolbwynt nifer o rwydweithiau rhyngweithiol sy'n cynnwys cwmnïau cynhyrchu a lleoliadau, grwpiau cymunedol, hyrwyddwyr diwylliannol ac artistiaid. Am fwy o wybodaeth am ein gwaith ac i gael blas ar rai o'n prosiectau diweddaraf, ewch i'n gwefan:

www.celtic-neighbours.eu

Celtic Neighbours is the development agency that stimulates and supports cultural interactions in our native languages across all the Celtic nations. Founded in 2003, we became a Community Interest Company in 2011. We work closely with a wide range of partners, and are the hub of many inter-active networks involving production companies and venues, community groups, individual animateurs and artists. For more details of our work and to get a taste of recent projects, please come and look at our website:

Cymdogion Celtaidd
Comharsain Ceilteacha
Nàbannan Ceilteach
Celtic Neighbours



# Gwyl Hwyl

Roedd o yn fraint i Ysgol Bro Ddyfi allu cefnogi'r Ŵyl Hwyl a fu'n arddangos doniau, sgiliau creadigol a'r cyfoeth diwylliannol sydd yn rhan mor amlwg o'n cymuned. Adlewyrchir hyn gan y cyfoeth o weithgareddau sydd ar waith yn yr ysgol a'r profiadau helaeth mae'r disgyblion yn cael y cyfle i fanteisio arnynt.

Eleni roedden fel ysgol yn arddangos radio'r ysgol. Dyma fenter newydd a chyffrous sydd wedi profi i fod yn llwyddiant ysgubol. Mae ein gorsaf radio yn cynnig y cyfle i ddysgwyr i fod yn gyflwynwyr radio a darlledir rhaglenni sydd wedi eu cynhyrchu ganddynt ar ddechrau'r diwrnod, amser egwyl ac amser cinio. Uwch lwythir y rhaglenni ar wefan yr ysgol a gellir eu lawr-lwytho yn fyd-eang er mwyn gwrando arnynt neu i'w gosod ar offer sain cludadwy.

Pwrpas y radio oedd hyrwyddo'r iaith Gymraeg a datblygu sgiliau llythrennedd ac yn arbennig sgiliau llafaredd y dysgwyr, a gwneud hynny mewn modd cyfoes, perthnasol a chyffrous. Gwelir hefyd y dysgwyr yn arddangos eu sgiliau cyflwyno a TGCh yn y clwb TGCh yn yr ysgol lle mae'r radio yn profi i fod yn rhan boblogaidd o'r gweithgareddau.

Ymfalchïwn yn ein hwythnos weithgareddau flynyddol ar ddiwedd tymor yr haf, ac mae'r ffilmiau comedi a gynhyrchwyd gan flwyddyn **10** yn sicr yn haeddu cryn glod. Yn y gorffennol mae gwneuthurwyr ffilm o'r ysgol mewn cydweithrediad gyda'r Adran Astudiaethau Cyfryngau wedi llwyddo i ennill gwobrau cenedlaethol am eu cynhyrchiadau. Enillodd y ffilm "Tea drinking as an Olympic Sport" wobr genedlaethol ac fe'i dangoswyd yn seremoni agoriadol y Gemau Olympaidd yn Llundain 2012. Mae cwmni FILM 15 hefyd wedi arwain y broses o gynhyrchu ffilmiau yn ystod yr wythnos weithgareddau ac wedi ennill gwobr y "Pink Snowball". Yn ystod yr Ŵyl Hwyl roeddem yn falch iawn i allu rowlio'r carped coch i arddangos casgliad o ffilmiau y crewyd gan ddisgyblion yr ysgol. I goroni'r cyfan, roedd bandiau'r ysgol a hefyd grŵp dawnsio creadigol yn arddangos eu talentau yn ystod yr ŵyl. Eto, dyma bobl ifanc sydd wedi ennill llwyddiant yn genedlaethol – y grŵp dawnsio creadigol yn gyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni ac un o'r grwpiau pop yn ennill yr ail wobr. Roedd gwledd o ddoniau eto i'w gweld yma.

Diolch yn fawr iawn i Meic Llywelyn am helpu i drefnu y digwyddiad yma a phob llwyddiant i'r wyl i barhau i fod yn drefniant blynyddol.

Ysgol Bro Ddyfi was proud to support the Gwyl Hwyl culture festival which showcased what our *community has to offer and it's rich and creative* artistic and cultural skills. This year Ysgol Bro Ddyfi showcased its new radio station in which pupils have created radio shows which air throughout the school every morning, break and lunchtime. Pupils also showcased their radio shows as budding presenters on the school website , where they can download their podcasts at home or on to their portable devices. The aim of the Radio was to encourage and develop the use of the Welsh Language and Literacy skills in the school and it has been a massive success with various subjects using the radio station as part of the curriculum and the pupils showing off their presenting and ICT skills in the ICT club within the school.

The school was also proud to show some of our work during activities week, in which Year 10 Pupils created comedy films. In the past the school has won awards nationally within the media department with their projects including their Olym*pic short film "Tea Drinking as an Olympic sport"* which was showcased during the Games in London also the Pink Snowball awards when working in conjunction with FILM 15. This was truly red carped event which will show off the hard and creative work our pupils produce.

School bands and the creative dancing group also performed during the Gwyl Hwyl Festival and showcased the talent that Bro Ddyfi has to offer!

Many thanks to Meic Llywelyn in helping to arrange this brilliant day and hopefully this an annual event!



# Quizlet y ffordd orau i adolygu

# Quizlet the best way to revise

**Defnyddiwch raglan *Quizlet* i wneud cwis ar bynciau gwahanol i ddysgu geirfa, ieithoedd ac amryw o wahanol bynciau!**

Use Quizlet to make quizzes about deferent subjects, from terms, languages and all subjects.

## www.Quizlet.com



# Top of the Bench

*Llongyfarchiadau i wyddonwyr Ysgol Bro Ddyfi am ennill y gystadleuaeth Cemeg Top of the Bench yng Ngregynog yn ddiweddar. Llwyddodd Brioney Rigby, Finn Nicklen-Sandy, Ella White ac Alfie Horton i ennill tlws hardd a gwobr ariannol i'r ysgol. Da iawn chi!*

*Congratulations to Ysgol Bro Ddyfi's scientists for winning a Chemistry Top of the Bench competition held in Gregynog recently. Brioney Rigby, Finn Nicklen-Sandy, Ella White and Alfie Horton were the team which won a smart trophy and a monetary award for the school. Well done you!!*

---

# Pêl Droed i ferched!



**Ar ôl llawer o ddiddordeb..** Mae yna dïm pêl droed i enethod wedi ei sefydlu. Mae'r clwb ar agor i enethod o flwyddyn 7 i flwyddyn 11. Mae'r hyfforddiant pob nos Lun i nos Iau, yn rhedeg o 3:30 – 4:30 ar gae'r ysgol. Hyfforddwyr y tïm ydi Keiran Jones, James Ingleston, Stefan Price a Nichole Read.
**Gemau..** Mae cystadleuthau wedi eu trefnu yn erbyn Tywyn a Llanfair Caereinon a mwy ar y gweill erbyn tymor y Gwanwyn! Pob lwc genod! Enillodd Bro Ddyfi 2 — Dolgellau 1.

***Girls Football***
***By Popular demand……..****A girl's football team has been started. The club is open to girls from year 7-11. Training is Monday and Thursday from 3.30 - 4.30 on the school field. The team Coaches are Kieran Jones, James Ingleston, Stefan Price and Nichole Read.*
***Fixtures…*** *There have been matches organised against Tywyn and Llanfair Caereinon and a tournament planned for the spring**. Good Luck Girls!** The girls won Dolgellau 2 -1.*



# Badminton

Ddydd Iau, Tachwedd 22ain aeth 14 o ddisgyblion i gystadleuaeth Badminton Gogledd Powys yng Nghanolfan Hamdden Maldwyn yn y Drenewydd.

Fformat y twrnament oedd chwarae 5 gêm yn erbyn bob ysgol arall oedd yn bresennol (2 gêm sengl a 3 dwbl) a phwy bynnag oedd yn ennill y mwyaf o gemau oedd yn ennill y gystadleuaeth.

Yng nghystadleuaeth bechgyn blwyddyn 7 ac 8 roedd Jack Williamson, Saul Woods, Dafydd Ingram a Gilby Campbell yn cynrychioli'r Ysgol. Roeddent wedi brwydro'n galed ac wedi llwyddo i ennill 6 gêm i ddod yn 4ydd. Llwyddodd y bechgyn hefyd i ennill 2 gêm yn erbyn yr enillwyr; Ysgol y Drenewydd (nid oedd yr un ysgol arall wedi llwyddo i ennill gêm yn erbyn y tîm yma!). Chwaraewr y twrnament i'r tîm oedd Jack Williamson, llwyddodd i ennill pob gêm.

Abigail Edwards, Lois Jones ac Amy Jones oedd yn cynrychioli'r ysgol yn y twrnament i ferched blynyddoedd 7 ac 8. Llwyddodd y merched i ennill y twrnament trwy guro Ysgol y Drenewydd 3 gêm i 2. Roedd y gystadleuaeth wedi dod lawr i'r gêm ddwbl olaf a llwyddodd Abigail a Lois i ennill y gêm holl bwysig yn rhwydd o 21 pwynt i 7. Llongyfarchiadau mawr i'r merched. Chwaraewr y twrnament oedd Abigail Edwards.

Bu hefyd llwyddiant i fechgyn blwyddyn 9 a 10. Roedd James Ingleston, Kieran Jones a George Cottam ar dân ym mhob gêm a enillon nhw'r twrnament yn rhwydd yn erbyn 3 ysgol arall. Enillodd y bechgyn 13 allan o 15 gêm. Chwaraewr y twrnament oedd James Ingleston.

Daeth merched blwyddyn 9 a 10 yn ail. Sara Rees, Fflur Jones, Mared Ingram a Mari Brame oedd yn y tîm. Collon nhw yn erbyn y Drenewydd o 3 gêm i 2. Roeddent wedi ymladd yn dda ond colli o drwch blewyn wnaethon nhw yn y pen draw. Chwaraewr y twrnament oedd Fflur Jones.

Da iawn i bawb. Roedd yr athrawon o'r ysgolion eraill, y dyfarnwyr a threfnwyr y twrnament wedi syfrdanu gyda safon chwarae disgyblion ein hysgol. Derbyniais e-bost gan Swyddog Datblygu Chwaraeon Powys yn dweud fod potensial mawr yn chwaraewyr Ysgol Bro Ddyfi.

*On the 22nd November 14 pupils from Ysgol Bro Ddyfi travelled to the Maldwyn Leisure Centre in Newtown for the North Powys Badminton competition.*

*The format of the tournament was each team played each other over a 5 game match. (2 singles and 3 doubles). The team with the most game wins would win the tournament.*

